OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2378 (Cy.251)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod y ffioedd am gymeradwyaethau at ddibenion y cynllun iechyd dofednod a sefydlwyd o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC ar 30 Tachwedd 2009 ar amodau iechyd anifeiliaid, sy'n llywodraethu'r fasnach mewn dofednod ac wyau deor o fewn y Gymuned a mewnforion dofednod ac wyau deor o drydydd gwledydd (OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t.74) a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, oherwydd na ragwelir unrhyw effaith newydd ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 2378 (W.251)

# ANIMALS, WALES

## The Poultry Health Scheme (Fees) (Wales) Regulations 2011

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations set the fees for approvals for the purposes of the poultry health scheme established under Council Directive 2009/158/EC of 30 November 2009 on animal health conditions governing intra-Community trade in, and imports from third countries of, poultry and hatching eggs (OJ No. L 343, 22.12.2009, p.74) and the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011.

A regulatory impact assessment has not been produced for this instrument as no new impact on the private, voluntary or public sectors is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2378 (Cy.251)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Medi 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *28 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym* | *19 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 19 Hydref 2011.

**Ffioedd mewn perthynas â'r cynllun iechyd dofednod**

**2**.—(1) Y ffi am gymeradwyaeth at ddibenion y cynllun iechyd dofednod a sefydlwyd o dan baragraff 4 o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**2**) yw £60 am gymeradwyaeth ddechreuol, ynghyd â ffi flynyddol o—

(a) £62 ar gyfer haid neu ddeorfa; neu

(b) £70 ar gyfer cyfuniad o haid a deorfa ar un safle.

(2) Os cyflawnir yr arolygiad blynyddol o dan y paragraff hwnnw gan swyddog Gweinidogion Cymru, y ffi am bob arolygiad (yn ychwanegol at y ffi flynyddol) yw—

(a) £97 ar gyfer haid neu ddeorfa; neu

(b) £143 ar gyfer cyfuniad o haid a deorfa ar un safle.

(**1**) 1973 p.51. Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2011/2379 (Cy.252).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 2378 (W.251)

# ANIMALS, WALES

## The Poultry Health Scheme (Fees) (Wales) Regulations 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *28 September 2011* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *28 September 2011* |
| *Coming into force* | *19 October 2011* |

The Welsh Ministers, with the consent of the Treasury, make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 56(1) of the Finance Act 1973(**1**) and now vested in them.

**Title, application and commencement**

**1**. The title of these Regulations is the Poultry Health Scheme (Fees) (Wales) Regulations 2011. They apply in relation to Wales and come into force on 19 October 2011.

**Fees relating to the poultry health scheme**

**2**.—(1) The fee for approval for the purposes of the poultry health scheme established under paragraph 4 of Schedule 2 to the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011(**2**) is £60 for initial approval, with an annual fee of—

(a) £62 for a flock or hatchery; or

(b) £70 for a combined flock and hatchery on one site.

(2) If the annual inspection under that paragraph is carried out by an officer of the Welsh Ministers the fee for each inspection (in addition to the annual fee) is—

(a) £97 for a flock or hatchery; or

(b) £143 for a combined flock and hatchery on one site.

(**1**) 1973 c.51. The Welsh Ministers may exercise this power by virtue of section 59(5) of the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**2**) S.I. 2011/2379 (W.252).

(3) Y ffi am gymeradwyo, o dan y paragraff hwnnw, labordy sy'n cynnal profion diagnostig ar gyfer aelodau o'r cynllun iechyd dofednod yw—

(a) £13 am brosesu cais am gymeradwyaeth; a

(b) £31 am brosesu dogfennaeth gofrestru flynyddol.

**Ffi am brofi hyfedredd labordy**

**3**. Mae'r ffi sy'n daladwy gan labordy cymeradwy am y profion hyfedredd canlynol a gynhelir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol o dan baragraff 2 o Atodiad I i Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC (ar amodau iechyd anifeiliaid, sy'n llywodraethu'r fasnach mewn dofednod ac wyau deor o fewn y Gymuned, a mewnforion dofednod ac wyau deor o drydydd gwledydd(**1**)) fel a ganlyn.

**Tabl 1**

| *Prawf hyfedredd* | *Ffi(£)* |
|---|---|
| Bacterioleg Salmonella (pullorum, gallinarum, arizonae) | 131 |
| Seroleg Salmonella (pullorum, gallinarum) | 336 |
| Seroleg ieir Mycoplasma (gallisepticum) | 336 |
| Meithriniad Mycoplasma (gallisepticum a meleagridis) | 281 |
| Seroleg tyrcïod Mycoplasma (gallisepticum a meleagridis) | 336 |

**Amser talu**

**4**. Mae'r ffioedd yn daladwy i Weinidogion Cymru pan ofynnir am y tâl.

(3) The fee for the approval under that paragraph of a laboratory conducting diagnostic testing for members of the poultry health scheme is—

(a) £13 for processing an application for approval; and

(b) £31 for processing annual registration documentation.

**Fee for proficiency testing a laboratory**

**3**. The fee payable by an approved laboratory for the following proficiency tests conducted by the Animal Health and Veterinary Laboratories Agency under paragraph 2 of Annex I to Council Directive 2009/158/EC (on animal health conditions governing intra-Community trade in, and imports from third countries of, poultry and hatching eggs(**1**)) is as follows.

**Table 1**

| *Proficiency test* | *Fee(£)* |
|---|---|
| Salmonella bacteriology (pullorum, gallinarum, arizonae) | 131 |
| Salmonella serology (pullorum, gallinarum) | 336 |
| Mycoplasma chicken serology (gallisepticum) | 336 |
| Mycoplasma culture (gallisepticum & meleagridis) | 281 |
| Mycoplasma turkey serology (gallisepticum & meleagridis) | 336 |

**Time of payment**

**4**. Fees are payable to the Welsh Ministers on demand.

*John Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

Minister for the Environment and Sustainable Development, one of the Welsh Ministers

28 Medi 2011

28 September 2011

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t. 74.

(**1**) OJ No L 343, 22.12.2009, p. 74.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2378 (Cy.251)

## ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau'r Cynllun Iechyd Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2011

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 2378 (W.251)

## ANIMALS, WALES

The Poultry Health Scheme (Fees) (Wales) Regulations 2011

£4.00

W1054/10/11 ON